



ARFOR

CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

PROSBECTWS | PROSPECTUS
2022 - 2025



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cynghor Sir
CEREDIGION
County Council



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YR HANES HYD YMA: GWEDD GYNTAF ARFOR

Yn 2019, yn dilyn cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, darparwyd £2 miliwn i Gyngorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg (Rhaglen ARFOR) hyd at ddiwedd 2020/21.

Roedd cydweithio, arloesi a dysgu yn rhinweddau creiddiol i ARFOR o'r cychwyn cyntaf.

Sefydlwyd Bwrdd yn cynnwys Arweinyddion y pedair sir i arwain y Rhaglen. Roedd y Bwrdd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol, monitro gweithgaredd ac ychwanegu gwerth at y gwaith.

Ar gais y Bwrdd roedd Cyngor Gwynedd yn gweinyddu a chydlynu'r Rhaglen ar ran y pedair sir.

Dyma weithgaredd y Rhaglen yn ystod ei gwedd gyntaf:

- darparu cymorth ariannol i gefnogi, sefydlu a datblygu busnesau drwy becynnau o gefnogaeth ariannol a chyngor;
- mentora pobl ifanc a'u cefnogi i fentro drwy gynllun Llwyddo'n Lleol 2050;
- hyrwyddo a rhannu straeon cadarnhaol am lwyddiant yn yr ardal;
- cefnogi busnesau i gael gafael ar offer cyfoes;
- cefnogaeth i sefydlu a datblygu mentrau cymdeithasol i warchod adnoddau allweddol mewn cymunedau yng nghadarnleoedd y Gymraeg.



Maggie's African Twist

THE STORY SO FAR: THE FIRST PHASE OF THE ARFOR PROGRAMME

In 2019, following a budget agreement between Welsh Government and Plaid Cymru, £2 million was provided to Gwynedd, Anglesey, Ceredigion and Carmarthenshire Councils to trial innovative methods of supporting the economy in Welsh-language strongholds (the ARFOR programme) until the end of 2020/21.

Collaboration, innovation and learning were core qualities for ARFOR from the very beginning.

A Board consisting of the Leaders of the four counties was established to lead the Programme. The Board was responsible for setting strategic direction, monitoring activity, and adding value to the work.

At the request of the Board, Gwynedd Council administered and coordinated the Programme on behalf of the four counties.

The Programme's activity during its first phase was as follows:

- providing financial support to assist the establishment and development of businesses through packages of financial business support and advice;
- mentoring young people and supporting them to engage in enterprise through Llwyddo'n Lleol 2050;
- promoting and sharing positive stories of success within the area;
- supporting businesses to secure access to up-to-date equipment;
- providing support to establish and develop social enterprises to protect key resources within communities in the strongholds of the Welsh language.

O ran rhifau, dyma rai o ganlyniadau gwedd gyntaf y Rhaglen:

- 154 o fusnesau wedi derbyn cymorth;
- 238 o swyddi cyfwerth â rhai llawn-amser, ac 89 o swyddi rhan-amser wedi'u creu;
- 226 o swyddi wedi'u gwarchod.

Y tu hwnt i'r ystadegau, roedd canlyniadau'r Rhaglen o ran ei hansawdd – o ganlyniad i'r elfen gref o gydweithio, partneriaethau, arloesi a dysgu – hefyd yn arwyddocaol.

Dyma grynodedb o'r gwersi a ddysgwyd a'r argymhellionlion

yn dilyn gwedd gyntaf Rhaglen ARFOR:

1. Mae angen deall y berthynas rhwng yr economi a'r iaith yn well – yn enwedig y syniad o 'swyddi gwell' yn yr ardal a'r potensial i effeithio ar fudo. Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol gynnwys mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil, monitro a gwerthuso dros gyfnod estynedig. Dylid datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng ffactorau economaidd a ffactorau sylfaenol a strwythurol eraill hefyd.
2. Dylid ymgymryd ag unrhyw raglen yn y dyfodol dros gyfnod hwy gyda mwy o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer dylunio a darparu gweithgareddau wedi hynny a'u hintegreiddio â mentrau datblygu busnes a chymorth iaith prif ffrwd.
3. Mae arloesi a threialu syniadau wedi bod yn rhan annatod o'r rhaglen hyd yma a dylent barhau i fod felly mewn unrhyw raglen yn y dyfodol, ond mae angen llwybr wedi'i ddiffinio'n glir i uwchsgilio a / neu brif ffrydio gweithgareddau llwyddiannus.
4. Mae modd gweld y budd posib o integreiddio cefnogaeth ar gyfer datblygu busnes a datblygu defnydd iaith gan fusnesau.

Among the quantitative results of the first phase of the Programme are:

- 154 businesses received support;
- 238 full-time equivalent jobs and 89 part-time jobs were created; and,
- 226 jobs were protected.

Beyond the quantitative results, the qualitative results of the Programme – a result of the strong element of collaboration, partnerships, innovation, and learning – were also significant.

Here is a summary of the lessons learned

and the recommendations from the first

phase of the ARFOR Programme:

1. The relationship between the economy and the language needs to be better understood – especially the idea of 'better jobs' in the area and the potential to affect migration. Any future programme should include greater investment in research, monitoring, and evaluation over an extended period. A better understanding of the interaction between economic factors and other fundamental and structural factors should also be developed.
2. Any future programme should be undertaken over a longer period with more time allowed for subsequent design and delivery of activities and integration with business development initiatives and mainstream language support.
3. Innovation and piloting of ideas has been an integral part of the programme to date and should continue to be so in any future programme, but with a clearly defined path to upskill and / or mainstream successful activities.
4. The potential benefit of integrating support for business development and developing language use by businesses can be seen.

5. Mae'r rhaglen wedi tynnu sylw at effaith bosibl cefnogi pobl ifanc i sefydlu a datblygu mentrau, a thrwy hynny gynyddu'r tebygolrwydd o'u cadw yn eu hardaloedd lleol a dylanwadu ar eu cyfoedion, a gallai hynny fod yn rhan allweddol o unrhyw raglen yn y dyfodol.
6. Mae cydweithredu a rhannu arfer da a dysgu wedi bod ymhlith nodweddion allweddol y rhaglen ac fe'i gwerthfawrogwyd gan yr holl bartneriaid. Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol sicrhau digon o adnoddau i gefnogi, hwyluso a gwreiddio cydweithredu pellach rhwng y partneriaid presennol gyda'r bwriad o ehangu ystod y partneriaid dan sylw.

Ar sail llwyddiant gwedd gyntaf y Rhaglen, drwy'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae £11 miliwn wedi ei sicrhau i gynnal ail wedd Rhaglen ARFOR hyd at fis Mawrth 2025.

Ym mis Mawrth 2022 rhoddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, a Cefin Campbell AS, aelod dynodedig Plaid Cymru, wahoddiad i Fwrdd ARFOR – sef Arweinyddion Cyngorau Sir Gâr, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd – ddarparu cynigion ar gyfer ail wedd ARFOR, yn seiliedig ar eu profiad o wireddu gwedd gyntaf y Rhaglen a chanlyniadau'r gwerthusiad annibynnol.

Ddiwedd mis Mawrth 2022 cyflwynodd Bwrdd ARFOR ei gynneg amlinellol ar gyfer ail wedd y Rhaglen, ac yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2022.

Ar 10 Hydref 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru eu bod wedi cymeradwyo'r cynneg.

5. The programme has highlighted the potential impact of supporting young people to establish and develop enterprises, thereby increasing the likelihood of keeping them in their local areas and influencing their peers, and this could be a key part of any programme in the future.
6. Collaboration and sharing of good practice and learning have been key features of the programme and it was appreciated by all the partners. Any future programme should ensure sufficient resources to further support, facilitate, and embed collaboration between the existing partners with the intention of expanding the range of partners involved.

Based on the success of the first phase of the Programme, through the Cooperation Agreement between Welsh Government and Plaid Cymru, £11 million has been secured to support the second phase of the Programme until March 2025.

In March 2022 Vaughan Gething MS, Minister for the Economy, and Cefin Campbell MS, designated member of Plaid Cymru, invited the ARFOR Board – namely the Leaders of Carmarthenshire, Ceredigion, Ynys Môn and Gwynedd Councils – to provide proposals for ARFOR's second phase; based on their experience of realizing the first phase of the Programme and the results of the independent evaluation.

At the end of March 2022 the ARFOR Board presented their outline proposal for a second phase of the Programme, and following feedback from Welsh Government a full action plan was presented in July 2022.

On 10 October 2022, Welsh Government and Plaid Cymru announced that they had approved the proposal.

AIL WEDD RHAGLEN ARFOR

Yn Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn y mae'r mwyafrif llethol o'r cymunedau lle mae canran uchel o'r bobl yn siarad Cymraeg. Mae'r cymunedau hyn yn allweddol i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg a'i pharhad yn iaith bob dydd.

Mae'r heriau economaidd sy'n wynebu'r pedair sir – megis cyflogau isel, tangyflogaeth a gweithlu sy'n crebachu – yn gyffredin i lawer o ardaloedd gwledig ac ymylol yng Nghymru a thu hwnt; ond mae effaith yr heriau hyn ar y Gymraeg yn unigryw ac yn bellgyrhaeddol.

Mae ffyniant cadarnleoedd y Gymraeg yn dibynnu ar fwy na gwaith a thâl, ond gellir rhesymu bod anallu'r economi i gefnogi trigolion i wireddu eu dyheadau – a chynnal llefydd llewyrchus – yn andwyol.

PWRPAS ARFOR:

Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd

y Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau

economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at

gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r

Gymraeg yn ddyddiol.



Bragdy Cybi - cwrw/beer

THE SECOND PHASE OF THE ARFOR PROGRAMME

Carmarthenshire, Gwynedd, Ceredigion, and Anglesey have the overwhelming majority of communities with a high density of Welsh speakers. These communities are key to maintaining the vitality of the Welsh language and its continuation as an everyday language.

The economic challenges of the four counties – such as low wages, underemployment, and a shrinking workforce – are common to many rural and peripheral areas in Wales and beyond; but the impact of these challenges on the Welsh language is unique and far-reaching.

The prosperity of the strongholds of the Welsh language is dependent on more than work and pay, but it can be reasoned that the inability of the economy to support residents to fulfil their aspirations – and maintain prosperous places – is detrimental.

THE PURPOSE OF ARFOR:

Supporting the communities that are strongholds

of the Welsh language to flourish through

economic interventions that will also contribute

to increasing opportunities to see and use the

Welsh language on a daily basis.

AMCANION STRATEGOL

- 1. Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros yn eu cymunedau cynhenid neu ddychwelyd iddyn nhw** – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn gwireddu eu dyheadau.
- 2. Creu cymunedau mentrus yn y fro Gymraeg** – drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu at gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- 3. Ychwanegu at fudd gweithgaredd drwy gydweithio** – sefydlu meddylfryd dysgu-drwy-wneud a gwella'n barhaus, dysgu o weithgaredd mewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn, gan ei deilwra i amgylchiadau lleol.
- 4. Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** – drwy gefnogi defnydd ac amlygrwydd y Gymraeg, annog creu naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

Mae cyswllt clir rhwng yr Amcanion Strategol – maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn ymateb i'r Pwrpas.

Mae'r Amcanion hefyd yn gweddu i amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig y **Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio a Cenhadaeth Economaidd; Iaith Pawb; Cymraeg 2050**.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag amcanion Cymraeg 2050 o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i alluogi'r Gymraeg i ffynnu. Gwneir hyn drwy gydnabod bod sylfaen yr economi yn allweddol bwysig er mwyn creu'r amodau cymdeithasol sy'n caniatáu i bobl barhau i fyw yn y cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd iddyn nhw, gan gyfrannu'n llawn at y gymdeithas.

STRATEGIC OBJECTIVES

- 1. Create opportunities for young people and families (≤ 35 years old) to stay in or return to their indigenous communities** – supporting them to succeed locally by engaging in enterprise or developing a career and ensuring a livelihood that fulfils their aspirations.
- 2. Create enterprising communities within Welsh-speaking areas** – by supporting commercial and community enterprises that aim to preserve and increase local wealth by taking advantage of the identity and unique qualities of their areas.
- 3. Maximize the benefit of collaborative activity** – by establishing a mindset of learning by doing and continuous improvement, learning from an activity within individual areas and then extending it, but tailoring it to local circumstances.
- 4. Strengthen the identity of communities with a high density of Welsh speakers** – by supporting the use and visibility of the Welsh language, encouraging a sense of place and local loyalty, together with increasing awareness of what is common across the region.

There is a clear link between the Strategic Objectives, they complement each other and respond to the Purpose.

The Objectives also fit with the policy objectives of Welsh Government, particularly the **Programme for Government** and the **Cooperation Agreement** and the **Economic Mission; Iaith Pawb; Cymraeg 2050**.

The proposals are in line with the objectives of Cymraeg 2050 in terms of increasing the use of the Welsh language as well as creating favourable conditions for the Welsh language to flourish. This is done by recognizing that the foundation of the economy is key in order to create the social conditions where people can continue to live in, or return to, our Welsh-speaking communities and contribute fully to that society.

EGWYDDORION GWEITHREDU

Sefydlwyd egwyddorion gweithredu clir ar gyfer ail wedd Rhaglen ARFOR i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r wedd gyntaf yn treiddio drwy'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen newydd. Yr egwyddorion gweithredu yw:


- Cydweithio, cydgynllunio a rhannu gwersi
- Cynyddu dealltwriaeth o'r broblem a gwella'n barhaus gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod gwedd gyntaf ARFOR
- Sicrhau bod gwerthuso yn rhan integredig o'r rhaglen
- Ychwanegu gwerth ac ategu gweithgareddau prif ffrwd (datblygu ieithyddol a datblygu economaidd) neu fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth
- Canolbwyntio ymdrech ar nifer fach o themâu craidd fel bod modd mesur effaith, ond gan barhau i dorri tîr newydd a threialu syniadau
- Gweithredu ar sail pedair sir gyda golwg ar gynnig gwersi i ardaloedd eraill ac ar y posibilrwydd o ymestyn ffiniau daearyddol yn y dyfodol
- Cyfrannu'n gadarnhaol at themâu llorweddol: lleihau ôl-troed carbon, sgiliau, arloesedd a'r defnydd o dechnoleg



Coffi Dre -
masnachwr coffi/coffee merchant



Mon Ar Lwy -
hufen ia/icecream



Eleri, Iogis Bach

Atebol - cyhoeddwr llyfrau/
book publisher



Artist Lisa Eurgain Taylor

OPERATING PRINCIPLES

Clear operating principles were established for ARFOR to ensure that the lessons derived from the first aspect of ARFOR penetrate through the development and implementation of the new Programme. The operating principles are:

- Collaborate, plan together and share lessons
- Increase understanding of the problem and improve continuously, building on what was achieved during ARFOR's first phase
- Ensure that evaluation is an integrated part of the programme
- Add value and complement mainstream activities (linguistic development and economic development) or address gaps in provision
- Focus efforts on a small number of core themes so that impact can be measured but continue to break new ground and trial ideas
- Acting on a four-county basis with a view sharing lessons with other areas and the scope to extend geographical boundaries in the future
- Contribute positively to horizontal themes; reducing carbon footprint, skills, innovation, and the use of technology

ARDAL WEITHREDU

Bydd ail wedd Rhaglen ARFOR yn cael ei gweithredu yn ardaloedd daearyddol Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn.

Yn y pedair sir y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (mae mwy nag 16% o fwllch rhwng canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr ac yng Nghonwy); gyda mwy na 41% o'r holl siaradwyr yng Nghymru yn byw yno. Mae data Cyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod 88% o'r holl gymunedau yng Nghymru sydd â 50% neu fwy o'u trigolion yn siarad y Gymraeg yn y pedair sir.

Er y bydd y rhaglen yn gweithio yn y pedair sir yma, bydd cyfle sylweddol i rannu gwersi gydag ardaloedd y tu allan i ranbarth ARFOR yn ystod oes y Rhaglen, er mwyn sicrhau bod unrhyw arfer da yn cael ei ledaenu cyn belled ag sy'n bosibl.


AREA OF OPERATION

The second phase of the ARFOR Programme will be active in the geographical areas of Carmarthenshire, Gwynedd, Ceredigion, and Anglesey.

These four counties have the highest percentage of Welsh speakers in Wales (there is a gap of more than 16% between the percentage of speakers in Carmarthenshire and those in Conwy); with over 41% of all speakers in Wales living there. The 2011 Census data also shows that 88% of all communities in Wales where 50% or more of their residents speak Welsh are located within the four counties.

Although the Programme will work in these four counties, there will be a significant opportunity to share lessons with areas outside the ARFOR region during the life of the Programme in order to ensure that any good practice is spread as far as possible.

ARDAL WEITHREDU ARFOR ARFOR AREA OF OPERATION



FFRYDIAU GWAITH

Bydd pum ffrwd waith, a'r rheiny'n dilyn rhesymeg y Rhaglen ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r Amcanion Strategol:

Llwyddo'n Lleol

Esblygiad o'r prosiect i gefnogi pobl ifanc i fentro yn eu cymunedau cynhenid, lle y bydd yn cael ei ymestyn ar draws y pedair sir. (Dim ond yng Ngwynedd a Môn yr oedd ar waith yn ystod gwedd gyntaf Rhaglen ARFOR.)

Bydd y cynllun parhau i gefnogi pobl ifanc i fentro drwy gyfuniad o gefnogaeth a chymorth ariannol ond hefyd yn ehangu i gefnogi teuluoedd ifanc i aros yn eu hardal neu ddychwelyd iddi. Bydd hefyd yn ceisio newid canfyddiadau'r grwpiau targed ynglŷn â'u gallu i gyflawni eu dyheadau yn lleol.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn dan reolaeth yr awdurdod arweiniol.

Cymunedau Mentrus

Adeiladu ar y cronfeydd cefnogi busnes llwyddiannus oedd ar gael gan y pedair sir yn ystod gwedd gyntaf Rhaglen ARFOR drwy ddarparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol i fentrau masnachol, cymdeithasol a chymunedol sefydlu a datblygu.

Bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar fentrau sy'n manteisio ar rinweddau unigryw eu cymunedau (gan gynnwys y Gymraeg) ac/neu sydd yn cylchdroi arian yn eu hardal er mwyn cynyddu faint o gyfoeth sy'n aros yn lleol.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ond yn cael ei wireddu'n lleol gan y siroedd unigol (er y bydd pwyslais ar gydlynw a chysoni'r ddarpariaeth).

WORK STREAMS

There will be five work streams that will follow the rationale of the Programme and directly address the Strategic Objectives:

Succeed Locally

An evolution of the previous project to support young people to venture within their indigenous communities (which was only active in Gwynedd and Anglesey during the first phase of the ARFOR Programme) across the four counties.

The plan will continue to support young people to engage in enterprise through a combination of support and financial assistance but also extend to support young families to stay in or return to the area together with trying to change the perceptions of the target groups regarding their ability to achieve their aspirations locally.

The plan will be active across the four counties and will be realized regionally through a commission managed by the lead authority.

Enterprising Communities

Building on the successful business support funds available with the four counties during the first phase of the ARFOR Programme, by providing financial and practical support for commercial, social and community enterprises to establish and develop.

The activity will target enterprises that take advantage of the unique qualities of their communities (including the Welsh language) and/or that circulate money within their area in order to increase the amount of wealth that is kept locally.

The plan will be operational across the four counties of ARFOR but will be realized locally by the individual counties (although the focus will be on coordinating and reconciling the provision).

Cronfa Her ARFOR

Sefydlu cronfa strategol i ganiatáu i sefydliadau (gan gynnwys y Cynghorau) sicrhau adnoddau i ddatblygu a threialu gweithgareddau yn ardal ARFOR a fydd yn cyflawni amcanion strategol y Rhaglen.

Bydd y Gronfa yn ymateb i'r casgliadau yng ngwerthusiad gwedd gyntaf Rhaglen ARFOR, sef bod angen cynnig cyfle i ystod ehangach o sefydliadau gyda diddordeb yn y maes gyfrannu, ac yn caniatáu i weithgaredd newydd gael ei gomisiynu yn ystod oes ail wedd Rhaglen ARFOR.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan yr awdurdod arweiniol gyda mewnbwn yr holl siroedd.

Cryfhau hunaniaeth cymunedau ARFOR

Bydd y cynllun yn adeiladu ar waith blaenorol i hybu arfer da a'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y gwaith yn hyrwyddo hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac yn tanio teyrngarwch trigolion lleol drwy ledaenu negeseuon cadarnhaol am eu hardal a'r gorllewin i gyd.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn dan reolaeth yr awdurdod arweiniol.

Dysgu o Raglen ARFOR

Un o rinweddau allweddol Rhaglen ARFOR yw sbarduno cydweithio a rhaeadru gwersi ynglŷn â'r maes.

Bydd y cynllun yn sicrhau bod monitro a gwerthuso canlyniadau ac effaith ARFOR yn ganolog i'r Rhaglen, ac yn sicrhau bod strwythurau'n cael eu sefydlu o'r dechrau i rannu'r gwersi sy'n deillio o'r Rhaglen a'i gweithgaredd.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn dan reolaeth yr awdurdod arweiniol.

ARFOR Challenge Fund

Establish a strategic fund to allow organisations (including the Councils) to submit applications for resources to develop and pilot activities in the ARFOR area that will address the Strategic Objectives of the Programme.

The Fund will respond to the conclusions in the evaluation of the first phase of the ARFOR Programme, namely that it is necessary to offer an opportunity to a wider range of organisations with an interest in the field to contribute, and allow new activity to be commissioned during the second phase of ARFOR.

The scheme will be active across the four counties and will be managed regionally by the lead authority with input from all the counties.

Strengthening the identity of ARFOR communities

Building on previous work to promote good practice and the use of the Welsh language during the first phase of the ARFOR Programme. The work will promote the identity of communities with a high density of Welsh speakers and trigger the loyalty of local residents by spreading positive messages about their area and the west of Wales as a whole.

The plan will be active across the four counties and will be realized regionally through a commission managed by the lead authority.

Learning from the ARFOR Programme

A key quality of the ARFOR Programme is to stimulate collaboration and cascade learning about the field.

The plan will ensure that monitoring and evaluating the results and impact of ARFOR is central to the Programme along with ensuring that structures to share the lessons from the Programme and its activity are established from the outset.

The plan will be active across the four counties and will be realized regionally through a commission managed by the lead authority.

RHEOLI A GWEITHREDU

Bydd strwythurau rheoli a gweithredu ail wedd Rhaglen ARFOR yn esblygiad o'r strwythurau a sefydlwyd ar gyfer gwedd gyntaf y Rhaglen, ond wedi'u cryfhau ymhellach i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyllideb a chyfnod y Rhaglen:

→ Bwrdd ARFOR

Bydd y Bwrdd yn cynnwys Arweinyddion y pedair sir, gyda'r Aelodau Cabinet sydd yn gyfrifol am ddatblygu economaidd yn dirprwyo. Bwrdd ARFOR fydd yn atebol am gyfeiriad strategol y Rhaglen ac yn atebol am ei pherfformiad.

→ Grŵp Swyddogion ARFOR

Bydd y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion a fydd yn cynnwys swyddogion uwch yn y pedair sir, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

→ Grwpiau prosiect

Bydd grwpiau prosiect unigol yn cael eu sefydlu ar gyfer pob ffrwd waith, yn rhanbarthol neu'n lleol fel sy'n briodol. Bydd y rhain yn cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n addas ar gyfer y maes.

→ Awdurdod arweiniol

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau'n awdurdod arweiniol ar gyfer ail wedd Rhaglen ARFOR.



MANAGEMENT AND IMPLEMENTATION

The rule and implementation structures of the second phase of the ARFOR Programme will be an evolution of the structures established for the first phase of the Programme supplemented to reflect the increase in the budget and the period of the Programme:

→ ARFOR Board

The Board will include the Leaders of the four counties with the cabinet Members responsible for economic development deputizing. The ARFOR world board is accountable for the strategic direction of the Programme and accountable for its performance.

→ ARFOR Officials group

The Board will be supported by an Officials Group comprising senior officers representing the four counties, together with representatives from Welsh Government and the Welsh Local Government Association.

→ Project groups

Individual project groups will be established for each work stream regionally or locally as appropriate. These will include stakeholders and a partnership that is suitable for the field.

→ Lead authority

Gwynedd Council will remain the lead authority for the second phase of the ARFOR Programme.

YMGYSYLLTU

Ochr yn ochr â'r strwythurau rheoli ffurfiol, bydd strwythurau i hwyluso ymgysylltu yn rhan annatod o'r Rhaglen, gan ymateb i argymhellion gwerthusiad gwedd gyntaf ARFOR:

Fforwm ARFOR

- Bwriedir sefydlu fforwm ymgynghorol o randdeiliaid o blith sefydliadau cyhoeddus (sy'n cynnwys y tair Prifysgol), sefydliadau preifat a'r trydydd sector.
- Bydd y Fforwm yn llwyfan i rannu gwybodaeth a lledaenu gwersi sy'n deillio o'r rhaglen i gynulleidfa ehangach, ynghyd â derbyn mewnbwn ac arweiniad.
- Bwriedir cynnal dau gyfarfod o'r Fforwm bob blwyddyn.

Fforymau lleol

- Gan adlewyrchu'r drefn ranbarthol, bydd pob sir unigol hefyd yn sicrhau fforwm priodol i raeadru gwybodaeth am Raglen ARFOR yn lleol ac i dderbyn mewnbwn rhanddeiliaid. Bydd siroedd unigol yn manteisio ar strwythurau sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n ymateb i'r angen / amgylchiadau yn lleol.

CADWCH MEWN CYSWLLT

www.rhaglenarfor.cymru

gwybodaeth@rhaglenarfor.cymru



Gwenyn
Gruffudd

ENGAGEMENT

Parallel to the formal management structures, structures to facilitate engagement will be an integral part of the Programme responding to the recommendations of ARFOR's first phase evaluation:

ARFOR Forum

- It is intended to establish a consultative forum made up of stakeholders from public (including the three Universities) and private organizations together with the third sector.
- The Forum will be a platform to share information and learn from the programme to a wider audience as well as receive input and guidance.
- It is intended to hold two meetings of the Forum annually.

Local forums

- Reflecting the regional system, each individual county will also ensure an appropriate forum to cascade information about the ARFOR Programme locally and to receive stakeholder input. Individual counties will take advantage of an existing structure in accordance with local need / circumstances.

KEEP IN TOUCH

www.rhaglenarfor.cymru

gwybodaeth@rhaglenarfor.cymru



ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH